


Un yn fwy, un yn llai

Bydd angen dis, darn arian a blociau neu friciau Lego ar gyfer y gêm hon.



- ◆ Cymerwch dro i rollo'r dis.
- ◆ Adeiladwch dwr gyda'r nifer hwnnw o friciau.
- ◆ Yna taflwch y darn arian. Mae gwlybyn (heads) yn golygu tynnu un bric. Mae sychyn (tails) yn golygu adio un bric.
- ◆ Os gallwch ddyfalu sawl bric sydd wedyn, gallwch eu cadw!
- ◆ Y cyntaf i gasglu 20 bric neu fwy sy'n ennill!

Cyfrif

Beth am ymarfer cyfrif? Dechreuwch gyda 5, a chyfrif ymlaen i 11. Dechreuwch gyda 9, a chyfrif yn ôl i sero. Dewiswch rif gwahanol i ddechrau bob tro.

Maths o'r Cwprdd


Gofynnwch i'ch plentyn eich helpu i drefnu'r cwprdd, gan roi'r pethau **trymaf** ar y silff isaf a'r pethau **ysgafnaf** ar y silff uchaf.



Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

YGG Castell-nedd

Targedau



Mathemateg

Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Derbyn 3

Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Dweud un, dau, tri, pedwar ... hyd at ddau ddeg.
- Cyfrif hyd at 10 eitem.
- Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4... hyd at 9.
- Defnyddio geiriau fel *mwy, llai, trymach, ysgafnach* i gymharu pethau.
- Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.
- Adio dau grŷp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).
- Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu
- Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.
- Enwi siapiau fel *cylch, sgwâr, triongl, petryal, ciwb, côn a sffêr*.
- Defnyddio geiriau fel *dros, o dan, uwchben, islaw, ar, yn, nesaf at, yn ymyl* i ddisgrifio ble mae pethau.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif i 20 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 15. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

Ac mae cyfrif pethau na allwch eu gweld yn gallu bob yn eitha' anodd!

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Casglu

Bydd angen pethau i'w casglu, e.e. siapiau gludiog, ffa sych.

- ◆ Yn ei dro, bydd un chwaraewr yn clapio 1, 2, 3, neu 4 gwaith tra bo'r chwaraewr arall yn cau ei lygaid ac yn gwrandao .
- ◆ Sawl clap glywsoch chi? Cymerwch y nifer hynny o siapiau.
- ◆ Y cyntaf i wneud patrwm gyda 12 siâp gludiog sy'n ennill.

Beth yw'r gwahaniaeth?

Tynnwch lun o chwe smotyn lliw mawr mewn rhes.



- ◆ Yn ei dro, mae un chwaraewr yn cau ei lygaid.
- ◆ Mae'r chwaraewr arall yn cuddio rhai o'r smotiau gyda darn o bapur.
- ◆ Mae'r chwaraewr cyntaf yn edrych ac yn dweud sawl smotyn sydd wedi eu cuddio.
- ◆ Rhowch gynnig ar rif arall, e.e. pump neu saith.